# Polisi Cydymffurfio a Gorfodi
# Atodiad 5: Effeithlonrwydd Ynni Gofynnol

## 1. Cyflwyniad

**1.1** Mae'r atodiad hwn yn ategu Polisi Cydymffurfio a Gorfodi y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR) wrth sefydlu dull cyson o orfodi Rheoliadau Effeithlonrwydd Ynni (Eiddo Rhent Preifat) (Cymru a Lloegr) 2015, ac mae'n rhaid ei ddarllen ar y cyd â'r polisi cyffredinol hwnnw. Pan fydd unrhyw wrthdaro o ran dehongli rhwng yr atodiad hwn a'r Polisi Cydymffurfio a Gorfodi cyffredinol, bydd yr un olaf yn cael blaenoriaeth.

**1.2** Diben y Rheoliadau Effeithlonrwydd Ynni (Eiddo Rhent Preifat) (Cymru a Lloegr) 2015 yw mynd i'r afael â'r eiddo rhent preifat domestig ac annomestig lleiaf ynni-effeithlon. Mae'r rheoliadau yn gwahardd:

- gosod eiddo o'r fath lle mae'r lefel isaf o effeithlonrwydd ynni (a nodir yn y Dystysgrif Perfformiad Ynni ar gyfer yr eiddo) yn is na sgôr E (h.y. eiddo â sgôr F neu G)
- Cofrestru unrhyw wybodaeth ffug neu gamarweiniol ar Gofrestr Eithriadau Sector Rhent Preifat Cenedlaethol y Llywodraeth
- Methu â chydymffurfio â Hysbysiad Cydymffurfio a gyhoeddwyd o dan y rheoliadau

**1.3** Bydd y GRhR yn nodi eiddo rhent nad ydynt yn bodloni'r lefelau isaf o effeithlonrwydd ynni, ac nad oes eithriad dilys wedi'i gofrestru ar ei gyfer. Bydd cymorth yn cael ei ddarparu i landlordiaid / asiantau gosod er mwyn sicrhau bod yr eiddo hynny'n cydymffurfio. Bydd disgwyl i landlordiaid ddangos bod ganddynt dystysgrif TPY sy'n cydymffurfio (sgôr A-E), neu fel arall nodi cynllun i gyflawni'r lefel effeithlonrwydd ynni ofynnol.

**1.4** Os na fydd y cam cynghori yn arwain at gydymffurfio, mae'r rheoliadau'n darparu opsiynau gorfodi penodol fel y nodir yn 2 isod.

## 2. Opsiynau Gorfodi

### 2.1 Hysbysiad Cydymffurfio

**2.1.1** Os yw'n ymddangos bod landlord wedi rhoi eiddo o dan y safon ar osod yn ystod y 12 mis blaenorol, o dan reoliad 37, gellir cyflwyno Hysbysiad Cydymffurfio i ofyn am wybodaeth gan y landlord i benderfynu a yw wedi torri'r rheoliadau. Os bydd y landlord naill ai

- yn methu â chydymffurfio â Hysbysiad Cydymffurfio neu
- yn darparu gwybodaeth o dan yr Hysbysiad Cydymffurfio sy'n dangos diffyg cydymffurfio o dan y rheoliadau,

gellir cyflwyno Hysbysiad Cosb (gweler 2.2 isod).

## 2.2 Hysbysiad Cosb

**2.2.1** Gellir cyflwyno Hysbysiad Cosb pan fydd yr awdurdod gorfodi yn fodlon bod landlord wedi torri Rheoliadau Effeithlonrwydd Ynni Eiddo Rhent Preifat (Cymru a Lloegr) 2015 yn y 18 mis blaenorol mewn cysylltiad â:

- Rheoliad 23 - gosod eiddo domestig (sgôr F / G) o dan y safon, a/neu
- Rheoliad 37(4) - methu â chydymffurfio â Hysbysiad Cydymffurfio

Ym mhob achos, cyfrifir lefel y gosb ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hysbysiad Cosb ar sail difrifoldeb y ffactorau sy'n arwain at euogrwydd a ffactorau sy'n arwain at niwed / risg. Nodir y fethodoleg ar gyfer hyn yn Adran 3 isod.

## 2.3 Cosb Gyhoeddi

**2.3.1** Gall yr Awdurdod Gorfodi benderfynu cyhoeddi manylion am ddiffyg cydymffurfio ar gyfer eiddo ar Gofrestr Eithriadau y SRhP, gyda manylion o'r fath yn parhau i fod yno am gyfnod o 12 mis neu fwy. Sylwch nad cosb ariannol yw'r Gosb Gyhoeddi.

# 3. Methodoleg ar gyfer Pennu Lefel Cosb Ariannol

**3.1** Mae Polisi Cydymffurfio a Gorfodi cyffredinol y GRhR yn adran 9.3 yn ystyried defnyddio sancsiynau sifil, gan gynnwys hysbysiadau cosb ariannol sefydlog ac amrywiol. Mae Rheoliadau Effeithlonrwydd Ynni (Eiddo Rhent Preifat) (Cymru a Lloegr) 2015 yn pennu'r cosbau ariannol uchaf y gellir eu gosod mewn cysylltiad â gorfodi effeithlonrwydd ynni gofynnol fel a ganlyn:

*(a)* *Os yw'r landlord wedi gosod eiddo o dan y safon yn groes i'r Rheoliadau am gyfnod o lai na 3 mis, gall yr Awdurdod Lleol osod cosb ariannol o hyd at £2,000 a gall osod y gosb gyhoeddi.*

(b) *Os yw'r landlord wedi gosod eiddo o dan y safon yn groes i'r Rheoliadau am 3 mis neu fwy, gall yr Awdurdod Lleol osod cosb ariannol o hyd at £4,000 a gall osod y gosb gyhoeddi.*

(c) *Os yw'r landlord wedi cofrestru gwybodaeth ffug neu gamarweiniol ar Gofrestr Eithriadau y SRhP, gall yr Awdurdod Lleol osod cosb ariannol o hyd at £1,000 a gall osod y gosb gyhoeddi.*

(ch) *Os yw'r landlord wedi methu â chydymffurfio â'r hysbysiad cydymffurfio, gall yr Awdurdod Lleol osod cosb ariannol o hyd at £2,000 a gall osod y gosb gyhoeddi.*

**3.2** Bydd y GRhR yn defnyddio dull fesul cam o benderfynu ar y gosb ariannol briodol, fel a ganlyn:

**Cam 1** - Ystyrir tri ffactor, euogrwydd y troseddwr, y potensial am niwed i denantiaid a difrifoldeb y risg. Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn nodi difrifoldeb y drosedd. Yna mae'r difrifoldeb yn cael ei gategoreiddio, a fydd yn cael ei ddefnyddio i bennu swm y gosb.

<u>**Cam 2**</u> - Mae'r cam hwn yn pennu hanes y troseddwr o gydymffurfio cyfreithiol

<u>**Cam 3**</u> (**Adolygu'r gosb)** - Bydd y GRhR yn gwirio bod y gosb yn gymesur â modd cyffredinol y troseddwr ac os oes nifer o droseddau bydd y Cyngor yn ystyried yr egwyddor cyfanrwydd.

**3.3** Yn gyntaf, bydd y GRhR yn ystyried ffactorau sy'n arwain at euogrwydd a niwed i ddewis man cychwyn o'r tablau yn 3.4 isod ar gyfer y gosb ariannol sy'n cael ei hystyried.

## 3.4 Camau 1 a 2

### 3.4.1 Ffactorau sy'n arwain at Euogrwydd:

**Uchel:** Mae'r landlord wedi methu â chydymffurfio â cheisiadau i gadw at y Rheoliadau. Darparu gwybodaeth anghywir yn fwriadol neu'n ddi-hid mewn cysylltiad ag eithriadau i'r Rheoliadau hyn.

**Isel:** Yr achos cyntaf o dorri'r Rheoliadau hyn, dim hanes blaenorol o ddiffyg cydymffurfio â gofynion rheoliadol sy'n gysylltiedig â Thai. Mae materion cymhleth sy'n rhannol y tu hwnt i reolaeth y landlord wedi arwain at ddiffyg cydymffurfio.

**3.4.2 Ffactorau sy'n arwain at Niwed / Risg:**

**Uchel:** Sgôr TPY isel e.e. G neu'n agos at sgôr G, tenantiaid agored i niwed sy'n meddiannu eiddo a/neu, cyfnod estynedig o amser ers diffyg cydymffurfio.

**Isel:** Sgôr TPY yn agos at y sgôr TPY dderbyniol isaf (E), Dim tenantiaid agored i niwed a/neu gyfnod byr o ddiffyg cydymffurfio.

| | **Euogrwydd isel** | **Euogrwydd uchel** | **Nodiadau** |
|---|---|---|---|
| **Niwed isel** | 25% | 50% | %=Cyfran y gosb uchaf |
| **Niwed uchel** | 50% | 100% | |

**3.4.3** Mae'r tablau canlynol yn dangos y pwyntiau cychwyn ar gyfer cosb am bob math o doriad:

*a) Heb fodloni'r safon ofynnol am lai na 3 mis: UCHAFSWM £2,000*

| | **Euogrwydd Isel** | **Euogrwydd Uchel** |
|---|---|---|
| **Niwed Isel** | £500 | £1000 |
| **Niwed Uchel** | £1000 | £2000 |

*b) Heb fodloni'r safon ofynnol am fwy na 3 mis: UCHAFSWM £4,000*

| | **Euogrwydd Isel** | **Euogrwydd Uchel** |
|---|---|---|
| **Niwed Isel** | £1,000 | £2,000 |
| **Niwed Uchel** | £2,000 | £4,000 |

*c) Darparu Gwybodaeth Ffug a Chamarweiniol, Cofrestr Eithriadau UCHAFSWM £1,000*

| | **Euogrwydd Isel** | **Euogrwydd Uchel** |
|---|---|---|
| **Niwed Isel** | £250 | £500 |
| **Niwed Uchel** | £500 | £1000 |

*d) Methu â chydymffurfio â Hysbysiad Cydymffurfio; UCHAFSWM £2,000*

| | **Euogrwydd Isel** | **Euogrwydd Uchel** |
|---|---|---|
| **Niwed Isel** | £500 | £1000 |
| **Niwed Uchel** | £1000 | £2000 |

**3.5 Cam 2 – Ystyriaeth bellach o Ffactorau Gwaethygu a Lliniaru**

**3.5.1** Efallai y bydd swyddogion o'r farn ei bod yn briodol addasu'r gosb o'r hyn a bennir yn y tabl naill ai i fyny neu i lawr yn dibynnu ar ffactorau gwaethygu neu liniaru penodol. Gall hyn gynnwys hanes blaenorol landlord o ddiffyg cydymffurfio neu gydymffurfio'n dda â gofynion rheoliadol sy'n gysylltiedig â thai.

**3.5.2** Os daw ffactorau i'r amlwg fel rhan o'r ymchwiliad sy'n gofyn am unrhyw addasiadau i'r gosb ariannol, bydd y ffactorau hyn yn cael eu cynnwys yn y Gosb Ariannol. Yn ogystal, gellir darparu ffactorau mewn sylwadau gan landlord yn ei gais i adolygu ar ôl cyflwyno'r Hysbysiad Cosb.

## 3.6 Cam 3 – Adolygu'r Gosb

### 3.6.1 Gostyngiadau

Bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw ffactorau sy'n nodi y gallai gostyngiad i'r gosb fod yn briodol a bydd yn ystyried goblygiadau ehangach y gosb ariannol ar drydydd partïon diniwed; er enghraifft, effaith gallu'r troseddwr i gydymffurfio â'r gyfraith neu adfer y dioddefwyr/tenantiaid.

### 3.6.2 Egwyddor Cyfanrwydd

Yn ogystal â'r cosbau uchaf a restrir yn Rheoliad 40, bydd y GRhR, wrth roi cosb ariannol am fwy nag un drosedd (e.e. cosbau am fwy nag un eiddo), neu pan fo troseddwr wedi cael cosb ariannol arall hefyd, yn ystyried a yw cyfanswm y cosbau yn gyfiawn ac yn briodol i'r ymddygiad troseddol ac yn gwneud addasiadau yn unol â hynny.

Yr egwyddor allweddol yw bod yn rhaid i'r gosb gyffredinol fod yn gyfiawn ac yn gymesur.

## 3.7 Cam 3 – Adolygu, Hepgor neu Addasu Cosb

**3.7.1** O fewn y cyfnod penodedig o dan reoliad 38(2)(h)(ii), gall y Landlord gyflwyno hysbysiad i'r awdurdod gorfodi yn gofyn am adolygiad o'i benderfyniad i gyflwyno hysbysiad cosb.

**3.7.2** Os yw'r Landlord yn cyflwyno hysbysiad yn unol â 3.7.1 uchod, neu os yw'r GRhR yn penderfynu adolygu ei benderfyniad i gyflwyno hysbysiad cosb mewn unrhyw achos arall, rhaid i'r GRhR:

a) Ystyried unrhyw sylwadau a wnaed gan y landlord a holl amgylchiadau eraill yr achos,

b) Cadarnhau neu dynnu'n ôl yr hysbysiad cosb

c) Cyflwyno hysbysiad o'r penderfyniad i'r landlord

**3.7.3** Yn dilyn yr adolygiad, os yw’r GRhR:

a) yn peidio â bod yn fodlon bod y landlord wedi cyflawni'r toriad a nodir yn yr hysbysiad cosb,

b) wedi ei fodloni bod y landlord wedi cymryd pob cam rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r toriad a nodir yn yr hysbysiad cosb, neu

c) yn penderfynu, o dan amgylchiadau'r achos, nad oedd yn briodol cyflwyno hysbysiad cosb i'r landlord.

Bydd hysbysiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r landlord i dynnu'r hysbysiad cosb yn ôl.

**3.7.5** Ar ôl adolygiad o dan gymal 3.7.2 uchod, gall y GRhR

a) hepgor cosb,

b) caniatáu amser ychwanegol i landlord dalu unrhyw gosb ariannol,

c) rhoi cosb ariannol is yn lle’r gosb wreiddiol a osodwyd, neu

d) addasu'r modd y cymhwysir cosb a gyhoeddwyd.